



Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

Future
Generations
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru o Gymunedau Cydlynys

- 1: Pobl yn weithgar yn eu cymunedau:** Creu'r amodau lle gall pobl a chymunedau wneud y pethau sy'n bwysig iddynt hwy
- 2: Cymunedau cysylltiedig:** Cynorthwyo cymunedau i greu cysylltiadau da a bod yn ddiogel
- 3. Mynediad i wasanaethau llesiant allweddol:** Cynorthwyo economïau sylfaenol bywiog
- 4: Sefydliadau angori cymunedau:** Gwerthfawrogi'r rôl a photensial y gall sefydliadau angori cymunedau ei chwarae wrth adeiladu cymunedau cydlynus





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru o Gymunedau Cydlynys

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,
diffinnir y rôl hon fel:

*“Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â
chysylltiadau da.”*



Diffinio'r nod

Ysgrifennodd yr awdur Americanaidd Meg Wheatley: “Nid oes unrhyw bŵer a fedr greu mwy o newid na chymuned yn darganfod yr hyn sy'n bwysig iddi.” Er gwaethaf hynny, cred llai na 25% o bobl ledled Cymru y gallant effeithio ar benderfyniadau a wneir yn lleol.

Pan fydd cymunedau'n gydlynus, mae ganddynt gysylltiadau da (yn cynnwys rhai digidol); gallant addasu i newid, ac maent yn ffocysu ar lesiant y bobl sy'n byw yno gyda mynediad da i wasanaethau llesiant allweddol megis addysg, iechyd, tai, manwerthu a thrafnidiaeth. A gall pobl wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae cymunedau cydlynus cysylltiedig yn rhan bwysig o lesiant pobl fel unigolion. Adnabu Sefydliad Iechyd y Byd bod diffyg gweithredu, ymddiriedaeth, a theimlad o berthyn, a chymdogaethau ansicr yn egluro 19% o'r bwlch mewn iechyd gwael rhwng yr incwm cyfartalog uchaf a'r isaf ar gyfer dynion a menywod yn Ewrop. Elfen allweddol yw presenoldeb sefydliadau cryf, lleol – a elwir yn aml yn 'sefydliadau angori cymunedau' – megis ymddiriedolaethau datblygu, mentrau cymdeithasol, cymdeithasau tai a chynghorau tref/cymuned. Maen nhw'n bwysig

oherwydd eu bod yn deall cymunedau lleol ac am fod ganddynt ymrwymiad hirdymor i'r ardal a wasanaethir ganddynt.

Mae cymunedau cydlynus hefyd yn gosod llesiant wrth wraidd datblygiad economaidd lleol. Mae'r Economi Sylfaenol yn ymwneud â gwasanaethau cyffredinol sylfaenol sy'n cynorthwyo bywyd bob dydd, megis iechyd, gofal a manwerthu. Gan fod bron i hanner holl gyflogaeth lleol yn ymwneud â'r gwasanaethau hyn, a'u bod yn gymharol sefydlog ac yn medru ymdopi â sioc economaidd, gall cyrff cyhoeddus eu gwerthfawrogi a'u cryfhau drwy agor gofod ar gyfer sgysiau i facsimeiddio eu potensial, gan greu amodau i'w helpu i wneud cyfraniad mwy.



Astudiaethau achos

Drwy'r holl ddogfen hon byddwch yn dod o hyd i nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i wrthrych y pwnc. Os gwelwch yn dda darllenwch y ddolen os byddwch yn gweld y symbol hwn.



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Creu cymunedau hyfyw lle gall pobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt hwy

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus - pwnc taith 1: Pobl yn weithgar yn eu cymunedau\)](#)

Cynorthwyo cymunedau i greu cysylltiadau da

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus – pwnc taith 2: Cymunedau cysylltiedig\)](#)

Cynorthwyo mynediad i wasanaethau llesiant allweddol mewn cymunedau

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus – pwnc taith 3: Mynediad i wasanaethau llesiant\)](#)

Gwerthfawrogi rôl sefydliadau allweddol wrth adeiladu cymunedau cydlynus

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus – pwnc taith 4: Sefydliadau angori cymunedau\)](#)

Deall rôl tai mewn cymunedau cydlynus

[\(Pwnc taith i gael ei archwilio ymhellach yn y cyfnod nesaf\)](#)

Creu cymunedau lle gall pobl deimlo'n ddiogel

[\(Pwnc taith i gael ei archwilio ymhellach yn y cyfnod nesaf\)](#)

Galluogi cymunedau i gysylltu'n ddigidol

[\(Pwnc taith i gael ei archwilio ymhellach yn y cyfnod nesaf\)](#)

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Mae'r **Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fapio a gwella'n barhaol lwybrau a chyfleusterau ar gyfer "teithio llesol" – a ddiffinnir fel cerdded neu feicio at ddiben penodol, megis mynd i'r gwaith neu gyrchu gwasanaethau, yn hytrach nag fel weithgaredd oriau hamdden.

Mae **Polisi Cynllunio Cymru** yn arwyddocaol yn y dasg o'n symud ni tuag at garbon isel, cymdeithas gydnerth, adeiladu amgylcheddau â chysylltiadau da i bawb yng Nghymru sy'n gwella ein bywydau, iechyd a llesiant. Mae'n cyflwyno'r cysyniad o lunio lle, ymagwedd holistig tuag at gynllunio a dylunio datblygu a mannau agored, sy'n ffocysu ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n manteisio ar botensial ardal i greu datblygu o ansawdd da a mannau agored sy'n hybu ffyniant, iechyd a llesiant pobl.

Mae Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014) yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hybu llesiant y rhai sydd ag angen gofal a chymorth, neu ofalwyr sydd ag angen cymorth. Egwyddorion y Ddeddf yw: cynorthwyo pobl ag anghenion gofal a chymorth i ennill llesiant; gwneud pobl yn ganolog i'r system newydd drwy roi iddynt lais cyfartal yn y gofal a dderbyniant; mae partneriaeth a chydweithredu'n sbarduno cyflawni gwasanaeth; a gwasanaethau'n helpu i leihau angen a sicrhau fod y gofal cywir ar gael ar yr amser cywir.



Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'.

Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn fwy **tebygol o ddigwydd pan fydd...**


- Cyrff cyhoeddus yn creu'r amodau gorau ar gyfer helpu cymunedau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy.
- Cyrff cyhoeddus yn sefydlu'r sgysiau am yr 'hyn sy'n bwysig' i bobl fel rhan hanfodol o'r modd y maent yn gweithio ([gweler y Daith tuag at Ymgyfraniad](#)).
- Cronfeydd allweddol a chyllidebau lleol yn cael eu defnyddio'n greadigol.
- Sefydliadau angori cymunedau a fedr roi llais i bobl leol, yn cael eu cynorthwyo i ddal asedau ac adeiladu cydnerthedd.
- Cymorth ar gael i arweinyddion cymunedol, actifyddion, entrepreneuriaid a gwirfoddolwyr.



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn llai **tebygol o ddigwydd pan fydd...**

- Cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn seilos heb fabwysiadu ymagweddau 'seiliedig-ar-le' tuag at yr hyn sy'n bwysig i bobl.
- Cyrff cyhoeddus yn gweld cymunedau fel rhai diffygiol, gan ffocysu ar wendidau ymddangosiadol ac anwybyddu cryfderau.
- Cyfleoedd cyllido'n fyr eu tymor a thameidiog.
- Agweddau tuag at gymunedau'n perchnogi asedau'n cael eu cyfyngu gan farn mai cyrff cyhoeddus yw'r 'lle naturiol' ar gyfer cadw asedau, a pherchnogaeth gan y gymuned yn dod yn bosibl yn unig pan na fydd cyrff cyhoeddus yn medru eu fforddio.
- Cyrff cyhoeddus yn siarad am ymgyfrannu a chyd-gynhyrchu ond heb fuddsoddi ar gyfer gwneud hyn yn iawn.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru o Gymunedau Cydlynys

3: Mynediad i wasanaethau allweddol

Yn cynorthwyo economïau sylfaenol bywiog

Diffinio'r mater

Mae ar gymunedau cydlynus, hyfyw angen mynediad i wasanaethau sylfaenol cryf i fod yn llwyddiannus - yn cynnwys nwy, trydan, dŵr, band eang, tai, iechyd, gofal, addysg, bwyd, manwerthu, trafnidiaeth, diwylliant. Mae ar gymunedau cydlynus angen gwerthfawrogi a chryfhau gwasanaethau sylfaenol drwy adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn bodoli; deall y sefydliadau traws-sector sy'n gweithredu'n lleol a chael sgysiau am sut i facsimeiddio'u potensial tra'n creu'r amodau i beri i hyn ddod yn realiti.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru iachach

Pwnc 4: Sefydliadau a gwasanaethau di-dor ar gyfer llesiant



Taith tuag at Gymru lewyrchus

Pwnc 3: Economiâu lleol



Gwneud **Newidiadau** Syml

Mapiwch natur yr [Economi sylfaenol](#) yn y cymunedau yr ydych yn eu gwasanaethu – gan ddysgu o'r ymchwil yn [Abertawe](#).

Macsimeiddiwch gyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol lleol, ymddiriedolaethau datblygu, cwmnïau cydweithredol, cymdeithasau tai a Busnesau Bach a Chanolig i weithio mewn sectorau economi sylfaenol.

E.e. [Cynlluniau peilot yn yr economi sylfaenol](#).

Ewch ati i gaffael gwasanaethau a ddarperir gan fentrau cymdeithasol lleol. Gwiriwch pa beth sydd gan fusnesau cymdeithasol i'w cynnig i chi ar [Busnes Cymdeithasol Cymru](#).

E.e. Prynodd **lechyd Cyhoeddus Cymru** deils carped oddi wrth garpedi [Greenstream](#).

Sicrhewch fod [cyllid allweddol](#) ar gael i gynorthwyo grwpiau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes gydag ymrwymiad i greu cyfoeth lleol.

Cynyddwch fynediad i [undebau credyd](#) a mentrau cyllid datblygu cymunedol eraill.

Cynorthwywch undebau credyd lleol drwy alluogi staff i gynilo drwy '[uniongyrchol o'r gyflogres](#)'.

Sicrhewch ei bod yn haws i staff gynilo'n rheolaidd gyda'u hundeb credyd. Galluogwch staff i wneud didyniadau cyflogres yn fisol yn uniongyrchol i'w cyfrif [undeb credyd](#).

Hyrwyddwch [wasanaethau cynghori ariannol](#) yn cynnwys hyrwyddo gwersi llythrennedd ariannol mewn ysgolion.

Bod Yn Fwy Anturus

Cynorthwywch [hwyluso menter leol](#) i alluogi busnesau (elw a dielw) i gyfrannu at ddatblygiad economi lleol.

Cynorthwywch a chysylltwch '[local wealth builders](#)' drwy ddefnyddio'r pecyn cymorth adeiladu cyfoeth lleol.

Cynorthwywch ddatblygiad [cynlluniau ynni lleol](#).

E.e. [Menter gymdeithasol leol Awel Aman Tawe](#).

Cynyddwch y defnydd o [becynnau cymorth caffael 'Can Do'](#) sy'n cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio'n eang mewn tai cymdeithasol, i feysydd caffael eraill.

Hyrwyddwch ddefnydd arloesol o ffrydiau ariannu [buddsoddi cymdeithasol](#).

E.e. **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** '[Action Social Investment Funding](#)'.

Hyrwyddwch gyfleoedd cyfranddaliadau cymunedol gyda chymunedau sy'n awyddus i ennill a rheoli asedau lleol.

E.e. **Canolfan Cydweithredol Cymru** –[cyfleoedd dyroddi cyfranddaliadau cymunedol](#) i gymunedau sy'n awyddus i ennill a rheoli asedau cymunedol.

Nodwch ddulliau o gynnwys grwpiau agored i niwed, megis pobl ddigartref, mewn trafodaethau ariannol.

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu cenedlaethol a chydweithredol

Dysgwch o ymagweddau adeiladu cyfoeth sylfaenol a chymunedol megis:

E.e. [Preston, Swydd Gaerhirfryn](#) lle mae llywodraeth leol a sefydliadau 'angori' yn gweithio i ddefnyddio'u pŵer caffael ar y cyd i eithaf eu gallu, i gynorthwyo busnesau a chwmnïau cydweithredol lleol.

E.e. [Model Cleveland](#), cadw cyfoeth yn yr economi lleol drwy fobileiddio adnoddau sefydliadau angori allweddol a mynd i'r afael â gwahaniaethau economaidd amlwg mewn cymunedau.

ee

E.e. [Barcelona Activa](#), sy'n rhoi cymorth i fusnes lleol a [sbectrw m eang o weithgaredd](#) am 30 mlynedd yn cynnwys 'solidariti' cymdeithasol ar lefel cymdogaeth yn gweithio gyda dinasyddion. Mae blaenoriaethau'r dyfodol yn cynnwys meysydd llesiant allweddol: ynni, dŵr, aer glân, trafnidiaeth, bwyd, tai a thrafnidiaeth.

Dysgwch o'r diddordeb a fynegwyd o'r newydd yn yr [Economi Sylfaenol: Dinasoli](#) yn y [DU](#) ac yn yr [Unol Daleithiau](#).

Dysgwch oddi wrth ymagweddau '[Cadw'n Lleol](#)' a '[Lleol yn Ddiodyn](#)' drwy ddatgloi'n rhagweithiol asedau lleol a chyfleoedd llesiant.

Gweithredu sefydliadol

Mae sefydlu [strategaethau caffael seiliedig ar le](#) yn galluogi BBaChau lleol i chwarae rhan lawn mewn economïau lleol.

Sicrhewch fod eich sefydliadau angori lleol - yn arbennig angori cymunedau - yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn llawn mewn ymagweddau tuag at sectorau adeiladu sylfaenol mewn meysydd megis: seilwaith, cyfleustodau, prosesu bwyd, manwerthu a dosbarthu, iechyd, addysg a lles.

Engbreiffiau ac adnoddau eraill



[Undebau credyd](#)



[Money Line Cymru](#)



[Gwasanaeth Cyngor ar Arian](#)



[Economi Sylfaenol](#)



[Adeiladu Cyfoeth Cymunedol](#)



[Manffesto Ymddiriedolaeth
Adeiladu Cymunedau](#)



**'The foundational economy:
what's housing got to do
with it?'** – [Prosiectau peilot
Economi Sylfaenol yn Nhreforus,](#)
Abertawe, Blaenau Gwent a gofal
cymdeithasol.